YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVI. MEHEFIN, 1946. RHIF 6.

Channing fel Uwchfeirniad.

Gan y Parchedig D. DELTA EVANS, Ilford.

YNG nghwrs fy nghyniwair pereriniol trwy amryw barthau o'r ynysoedd Prydeinig yn ystod mwy na hanner canrif bellach, a'm cyfathrach achlysurol â gweinidogion y gwahanol enwadau crefyddol—yn eu plith glerigwyr yr eglwys esgobaidd—fe synnid arnaf droeon wrth weled gweithoedd cyhoeddedig y diwinydd Undodaidd enwog William Ellery Channing (1780—1842) ar eu silffoedd—ac wrth law. Addefai amryw o'r gweinidogion hyn eu bod yn gyfarwydd â phregethau Channing—yn wir y gwnaent yn fynych ddefnydd hael ohonynt wrth ddarparu'r eiddo'u hunain! Heblaw hynny, tystiolaethent eu hargyhoeddiad fod yr Undodwr bydenwog nid yn unig yn feddyliwr dwfn, egniol, a bywiog, ac yr un mor hyawdl â'i ysgrifbin ag â'i enau, eithr y rhestrai ef yn y radd uchaf o gymeriad moesol—"gŵr ffyddlon a hir-barhaus yn ei ymdrech hyglod i gyrraedd yr Aruchel, y Gwir, y Da, y Gorau." O dro i dro, bûm yn sôn am fy mhrofiad personol yn y cysylltiad hwn wrth rai o'm hen gymrodyr anwylaf yn y Ffydd, a mwy nag unwaith fe'm sicrheid mai dyma hefyd oedd eu profiad hwythau. Pa dystiolaeth gadarnach neu fwy trawiadol a ellid ei hymofyn parthed dylanwad byd-eang a pharhaol proffwyd Undodaidd mwyaf blaenllaw ei oes—dewr difloesgni yn ei ddydd, a chawr meddyliol eofn o'i gymharu â'r corachod cyfaddawd—y rhan fwyaf ohonynt—sy'n dal swyddi fel dehonglwyr arweiniol y Ffydd Ryddfrydig heddiw!

Yn wir fel meddyliwr diwinyddol claer yn unig y pwysleisir mawredd Channing gan y mwyafrif yn y dyddiau hyn. Hyd y gwn i, nid fawr o neb heddiw sy'n meddwl amdano fel uwchfeirniad, er y gwyddai pob efrydydd hanes crefyddol yn yr oes o'r blaen fod yr

Undodwr enwog hwn yn arloeswr diwyd a dewr yn y maes uwchfeirniadol am lawer o flynyddoedd hyd ei farw cyn diwedd yr hanner cyntaf o'r ganrif ddiwethaf. Beth bynnag am hynny, y mae'r ffaith y gwerthfawrogir ei ysgrifau mor uchel gan gynifer o ddiwinyddion "uniongred" deallgar yn dra arwyddocaol, ac yn galonogrwydd mawr i ni heddiw, yn enwedig pan gofiwn na ddarfu'r un esboniwr erioed arfer cyllell finiog beirniadaeth yn fwy diwyd a grymus na Channing i docio canghennau anffrwythlon gwinllan y Meistr. Nid unrhyw ddadleuwr erioed a ddarfu'n fwy eglur a dewr nag efô wrth brofi rhesymolder haerdybiau poblogaidd ei ddydd ; ond ar yr un pryd nid unrhyw eiriolydd erioed a ddarfu fynegi achos ei wrthwynebydd yn decach a mwy diduedd nag efô, tra'n ei ddarostwng i ddadansoddiad ymchwilgar gan amlygu ei ogwydd niweidiol. Ni fethodd ganfod, eithr gwelai yn eglur, fel y mae'n rhaid rhyddhau meddyliau dynion oddi wrth gredoau gosod ac ystrydebol, ac oddi wrth draddodiadau marw a drewllyd, cyn byth y medr ysbryd ac anian Crefydd bur flodeuo ynddynt. I'r perwyl a ganlyn y mae rhai o'i eiriau ef ei hun ; gwell eu rhoi yn y gwreiddiol, oblegid ofnaf mai gwneuthur cam â hwynt a wnawn pe ceisiwn eu cyfieithu :

> "Much stubble is yet to be burned ; much rubbish is still to be removed ; many gaudy decorations which a false taste has hung around Religion as interpreted by Jesus of Nazareth must be swept away, and the earth-born fogs which have long shrouded it must be scattered, before this divine fabric can rise to our view in its native and awful majesty, in its harmonious proportions in its mild and celestial splendour."

Er cael ohono'i ddylanwadu'n fawr gan argyhoeddiadau fel yna tra'n taflu ei olwg yn ôl ac adfyfyrio, nid oes dadl amdano nad ymlaen i'r dyfodol yr oedd rhagolwg meddyliol a chrefyddol Channing yn barhaus. Wedi troi ohono ei gefn ar y Galfiniaeth gul y magesid ef ynddi, ceisiodd gyfarwyddyd agwedd uchaf a mwyaf cadarnhaol y grefydd Undodaidd, ac mewn modd amlwg arweiniodd ef y ffordd. Yn wir—fel y dywedodd yr Henadur C. S. Grundy mewn cyfarfod ym Manceinion yn 1880 i ddathlu canmlwyddiant geni ein gwron—

> "Channing's writings formed an epoch in the history of religious thought ; the lustre that hangs around his name grows brighter with the passing of the years, and throws its rays over an increasing area and a wider horizon."

Anturiaf finnau awgrymu bod y geiriau yna cyn wired heddiw ag oeddynt pan lefarwyd hwynt drigain a chwech o flynyddoedd yn ôl. "A wado hyn, gwaded i'r haul godi" . . . Traethodd Channing ar lawer iawn o bynciau, a hynny mewn dullwedd wych a deniadol, gan ddarlunio ac addurno popeth y cyffyrddir ag ef gan ei ysgrifell. Eithr Crefydd, a chrefydd foesoegol ac ymarferol, ydyw bob amser ei hoff awyrgylch.

Emynwyr Ceredigion.

Gan y Parchedig J. Seymour Rees.

(*Parhad o dudalen 78.*)

Rees Jones, "Amnon," Pwllffein. (1797—1844).

Ym mhentref Talgarreg y cafodd ei gartref ar y 8fed o Hydref, 1797. Mab ydoedd i David a Mary Jones, pobl gefnog yn berchen stad fechan yn nyffryn Cletwr. Pan yn ddeuddeg oed collodd ei dad, ond sicrhaodd ei fam ysgol iddo dan arweiniad David Davis, Castell Hywel. Priododd ei fam â'r gwas, a thynnwyd y mab o'r ysgol, Calanmai, 1812. Cyn ei fod yn ugain oed priododd â merch yn byw yn Nant yr Ymenyn, Llandysul, Awst 22, 1817. Ymhen naw mlynedd bu hi farw, ac ail-briododd, y tro hwn â Martha Gough, o Ffynnon Oer. Gadawodd ddwy ferch o'i briodas gyntaf.

Wedi blynyddoedd o afiechyd, bu ef farw ar y 15fed o Chwefror, 1844 yn 46 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Pantdefaid.

Yr oedd Amnon yn gymeriad talentog mewn llawer cyfeiriad. Myfyriai gerddoriaeth, a medrai ganu'n lled wych ar ddau neu dri o offer cerdd. Yn 1848 ymddangosodd ei holl gyfansoddiadau barddol mewn cyfrol, "Crwth Dyffryn Clettwr." Cafwyd ail-argraffiad yn 1907. Defnyddiwyd llawer o'i emynau mewn llyfrau perthynol i'w enwad.

David Lloyd, Brynllefrith (1725—1779).

Mab ydoedd i Richard a Hester Lloyd, Coedllannaufawr, Llanwenog, ac o dras tra aruchel. Honnir y disgynnai o deulu brenhinol ar ochr ei dad, ac yr oedd Jenkin Jones, Llwynrhydowen yn frawd i'w fam. Ychydig o'i hanes bore sydd ar glawr. Bu'n yr ysgol dan John Evans yn Llanwenog, wedyn gyda Samuel Thomas yng Nghaerfyrddin, a hwyrach hefyd yn y Coleg Diwinyddol yno. Ystyrid ef yn weinidog ar eglwys Llwynrhydowen oddi ar farwolaeth Jenkin Jones, eithr ni chafodd ei ordeinio dan y flwyddyn 1745. Ar gyfrif ei ddaliadau cafwyd trafferth i'w urddo. Ond yn dra buan cododd ei boblogrwydd, a bu cynnydd yn hanes ei eglwys. Pan gychwynodd ef yno, pedwar ugain o aelodau oedd ar y llyfrau. Erbyn dechrau 1779, rhifai'r cymunwyr tuag wyth cant, a nifer y gwrandawyr yn agos i bedair gwaith hynny. Dywedir mai ef oedd y siaradwr mwyaf llithrig a huawdl a fu erioed yn yr ardal.

Cyhoeddid ef hefyd yn ddarllenwr helaeth. Elai drwy gan tudalen o waith y beirdd Groegaidd bob dydd yn ystod mis diwethaf ei oes. Ef, yn ôl barn Arglwydd Aberdâr, oedd yr unig Gymro hyd ei ddydd a enillodd glod Ewropaidd.

Rhoddwyd cyfle iddo fod yn athro yng Ngholeg Caerfyrddin, ond gwrthododd ar gais ei gynulleidfaoedd. Yr oedd ganddo feddwl diwylliedig ac ymchwilgar. Datblygodd yn ieithydd gwych, a phregethwr llithrig.

Bu farw yn nechrau 1779, a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys Llanwenog yn ôl y cofnod swyddogol hwn : "Mr. Lloyd, of Castell Hywel, bur. 6th. Feby. 1779."

Erbyn heddiw nid oes nemor ddim o'i waith ar gael ar wahân i'w lythyrau a'i gyfrol hon o farddoniaeth : "Gwaith Prydyddawl y Diweddar Barchedig Dafydd Llwyd, Gweinidog Eglwys Llwyn Rhyd Owen, yn Sir Aberteifi. Caerfyrddin : Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, MDCCLXXXV."

Rhoddwyd ychydig o'i emynau ym *Mherlau Moliant.*

Dywed traddodiad iddo gael ei gladdu naill ai yn yr un bedd â Dafis Castell Hywel, neu wrth ei ochr. Nid oes garreg i nodi ei orweddfan.

David Thomas, "Dewi Hefin."

Ganed ef mewn tŷ o'r enw "Cnap Bach," plwyf Llanwenog ar Fehefin 4, 1828. Pan oedd ef yn ddwy flwydd oed symudodd ei rieni i Ben Lôn, ar bwys Cribyn. Felly daeth ef dan gysgod Daniel Ddu o Geredigion, eilun ei fro.

Danfonwyd Dewi i ysgol y Parch. Rees Davies, gweinidog Capel y Groes a Rhydygwin. Bu hefyd mewn ysgol arall a gedwid gan Evan Lewis, a ddaeth wedi hynny yn weinidog ym Morgannwg gyda'r Undodiaid.

Yn 1846, dilynodd ef y Parch. T. Emlyn Thomas i gadw ysgol yng Nghribyn am ychydig amser. Yna aeth i Fwlch y Fadfa am ddwy flynedd, ac am dair wedyn i Fydroilyn. Treuliodd y saith mlynedd nesaf ym mhentref Llanarth. Yma esiteddodd dau ŵr enwog wrth ei draed, sef y Gwir Barchedig Esgob Lloyd a'r Dr. Emrys Jones, Manceinion.

Ymadawodd â Llanarth i gadw ei ysgol nesaf yn Llanwnen. Bu'n llwyddiannus iawn yma eto.

Ysgrifennodd lawer i'r YMOFYNNYDD ar feirdd ei fro. Bu'n olygydd i'r ail argraffiad o *Winllan y Bardd* yn 1872, ac o *Delyn Dewi* yn 1876.

Ar ôl neilltuo o'i ofal o'r ysgol, defnyddiodd ei hamdden i gasglu ei weithiau ei hun i gyfrol o'r enw *Blodau Hefin.*

Ni chafodd traddodiad llenyddol ei hun nemor o gam gan Ddewi Hefin. Gorffwysodd mantell Daniel Ddu a Reuben, Brydydd y Coed yn esmwyth ddigon ar ei ysgwyddau ef.

Bu farw yn y Glaslwyn, ym mhentref Cribyn, ar y 9fed o Fawrth 1909.

Francis Thomas, "Y Crythor Dall."

Mab ydoedd i John Evan Thomas o blwyf Llanwenog. Ganed ef tua dechrau Mai, 1746, a chafodd ei fedyddio yn Eglwys y plwyf hwnnw ar Fai 13, 1746. Adwaenid ef ar draws gwlad wrth yr enwau,—"Ffranci Ddall," "Ffranci Dywyll," a'r "Crythor Dall." Ni chafodd ei olygon erioed, medd un hanesydd. Collodd hwy pan yn saith mlwydd oed, yn ôl tystiolaeth arall. Dywedir ei fod "yn berchen ar feddwl ystwyth a threiddgar, ac ar awen finiog. Y mae ei farddoniaeth yn ddestlus a glân, iaith firain, hapus gyda'r gystrawen, a gofalus gyda'r mesur, corfan ac odl." Yr oedd yn gerddor a chrythor medrus yn ogystal. Ysgrifennid ei brydyddiaeth gan Siôn Llwyd, arweinydd canu yn Eglwys Llanwenog. Ei athro barddol oedd y Parch. Dafydd Llwyd o Frynllefrith, a dylanwadodd hwnnw gryn lawer ar ei syniadau crefyddol.

Cyfansoddodd "Gân yn rhoddi hanes am gyflwr dyn ym mhob rhan o'i oes." Argraffwyd hi ym "Mlodau Dyfed." Cyfaddasodd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr, ran ohoni fel emyn yn ei lyfr emynau ef. O'r herwydd, daw ef i mewn i'n rhestr.

Yr oedd yn aelod o'r Eglwys Undodaidd yn Llwynrhydowen.

John Thomas, Pontsiân.

Ganed ef yn 1775 ym Mhenrhiw, Rhydowen. Mab ydoedd i Thomas Thomas, Twcwr, Pentre. Treuliodd y rhan helaethaf o'i oes yn ardal ei enedigaeth. Ceir cofnodiad iddo fyned i Lundain, a'i fod wedi gweithio yno am gyfnod hir cyn troi'n forwr. Ni wyddis yn iawn pryd y dysgodd ei grefft fel gwehydd, eithr glynodd wrth yr alwedigaeth honno drwy gyfnod olaf ei oes. Adwaenid ef yn gyffredin fel Jaci'r Gwehydd.

Yr oedd iddo enw teuluaidd yn ardal Pontsiân, a pharch mawr iddo gan bawb. Yr oedd yn feddiannol ar feddwl cryf a threiddgar. Yr oedd ganddo ddau faes arbennig a'i denai, sef deddfau natur a seryddiaeth. Gosododd ei awydd ar gasglu gwybodaeth, a gweithiodd yn ddyfal trwy ddarllen a meddwl drosto'i hun.

Bwriadodd gyhoeddi ei weithiau barddonol, ond goddiweddwyd ef gan afiechyd a marwolaeth cyn sicrhau ei ddymuniad.

Bu farw yn 1863, yn ŵr wyth deg ac wyth oed, ar Fehefin 10, wedi treulio ei oes mewn modd diddorol.

J. R. Thomas, Talgarreg.

Ganed a maged ef yn Rhydwen, Talgarreg. Yr oedd eu deulu yn aelodau parchus o Eglwys yr Undodiaid ym Mwlchyfadfa. Dechreuodd ef ei yrfa mewn gwasanaeth ar draws nifer o ffermydd yn yr ardal, ond codwyd ynddo awydd am addysg. Bu'n efrydu yn hen ysgol Pont Siân, dan y Parch. Thomas Thomas. Yna, aeth i gadw ysgol am aeaf neu ddau ym Mydroilyn. Wedyn, yn 1877 bu'n cynorthwyo fel is-athro yn ysgol Talgarreg, ac ar ôl hynny yn

gynorthwywr yn ysgol Llanarth i'r gŵr praff hwnnw, John Rees.

O dipyn i beth cymerodd ei gam i Goleg Normalaidd Bangor. Ar derfyn ei amser o ddwy flynedd apwyntiwyd ef yn brifathro ym Mhenuwch i aros yno am chwe neu saith mlynedd. Wedyn, gwelodd gyfle i ddod i ysgol Pont Siân, ei gartref. Llanwodd ei swydd yn y ddau fan gyda diwydrwydd a gofal amlwg. Bu'r ddwy ardal ar eu mantais o'i lafur mewn gwahanol gylchoedd. Yn 1916, ymddiswyddodd i dreulio gweddill ei oes mewn cartref clyd, Glyn, Talgarreg. Ar derfyn blwyddyn o gystudd bu farw ar Chwefror 5, 1938, yn 84 mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion marwol ym mynwent Capel y Fadfa.

Thomas Thomas, Pantdefaid.

Ganed ef yn fab hynaf i John a Jane Thomas, Fadfa, Talgarreg, plwyf Llandysilio, ar Ionawr 6, 1824. Bu'n weinidog ar Eglwys Pantdefaid, o 1847 hyd 1894, a Chapel y Groes o 1857 hyd 1894.

Cadwodd ysgol Ramadegol lewyrchus iawn ym Mhontsiân am ddeng mlynedd ar hugain. Bu'n aelod a chadeirydd Bwrdd Ysgol Llandysul o 1873 hyd 1900, ac yn aelod o'r Cyngor Sir o 1889 hyd 1895.

Treuliodd ei flynyddoedd olaf yn y Green Park, gerllaw yr hen gapel, Llwynrhydowen. Bu farw ar Chwefror 19, 1908.

Ar lawer cyfrif yr oedd hwn yn ddyn o werth arbennig, ac yn addurn i'w enwad.

T. Arthur Thomas, Llandysul.

Er mai dim ond un emyn, hyd y gwn, a gyfansoddodd y gŵr hwn, eto ar gyfrif gwerth hwnnw, rhoddir amlinelliad o'i fywyd yn y gyfres.

Mab ydoedd i Jacob Thomas, gwehydd yng Nghwrtnewydd. Ar ôl cyfnod yn yr ysgol ddyddiol aeth yntau i'r gweithdy gan arfaethu dilyn crefft ei dad. O dipyn i beth, blinid ef gan awydd arall. Hiraethai am fod yn weinidog yr Efengyl. Cafodd dymor byr o addysg dan arweiniad y Parch. David Evans, Cribyn cyn myned i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yn 1891. Ar derfyn cwrs o efrydiaeth dros bedair blynedd gwahoddwyd ef gan eglwysi Pantdefaid a'r Graig, Llandysul i'w bugeilio a chydsyniodd yntau.

Treuliodd ei flynyddoedd hyd yr 8 o Fehefin, 1932 yn weinidog anrhydeddus ar ei faes. Bu ei ddawn fel arweinydd yn gymorth sylweddol iawn i bobl ei ofal.

Enwogodd Mr. Thomas ei hun fel aelod gwerthfawr o Gyngor Sir Aberteifi am flynyddoedd, a phan symudwyd ef gan angau, bu bwlch llydan yn rhengoedd ei enwad a'i Sir enedigol.

Yn 1903, priododd â merch y diweddar Barch. William James, B.A., Llandysul.

Gorwedd ei weddillion marwol ym mynwent Pantdefaid.

Bellach dyma fi wedi dod i derfyn y maes y mentrais iddo. Y mae ychwaneg o emynwyr ymysg Undodiaid Ceredigion, eithr ni pherthyn i mi sôn amdanynt gan eu bod yn fyw. Parhaed pobun ohonynt felly am flynyddoedd i wasanaethu eu Duw a'u cyd-ddynion.

Ymysg fy nghasgliad o dros gant a hanner o emyn-lyfrau Cymraeg rhoddaf le anrhydeddus i'r tri yma a gyflwynwyd i mi'n ddiweddar gan gyfeillion : (1) "Emynau o Fawl a Gweddi," a gasglwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr. (2) "Perlau Moliant," 1896. (3) "Perlau Moliant," 1928.

Hen Lyfr ar Eglwys y Pab.

AWDUR y llyfr yw Syr Richard Steele, ei argraffydd oedd John Roberts, Warwick Lane, Llundain, a'i ddyddiad yw 1714. Hanes Eglwys Rufain cyn ac yng nghyfnod y Diwygiad Protestannaidd sydd ynddo a'i chymharu â'r Eglwys Wladol Seisnig wedi'r Diwygiad, yn enwedig y pethau a ddigwyddodd yn oes yr awdur.

Wele enghreifftiau. Yn 1707 ar Fai 12 mewn cynulliad a alwyd i Rufain gan y Pab penderfynwyd fod tri gwellhad trwy gyfrwng Andrew Avellino allan o wyth yn wyrthiau ; ar Fai 17, fod dau allan o wyth o gyffelyb wasanaeth o waith Catherine o Bologna yn wyrthiau ; ar Fai 8, 1709, fod gwella poen ym mhenlîn a dolur y sgyfaint o waith Felix o Cantala, dau allan o naw yn wyrthiau, ac yn y blaen. Dangosir fod yr awdurdodau yn Rhufain yn cwrdd i ystyried llawer o geisiadau o wahanol fannau am restru gwaith meddygol medrus ymhlith y gwyrthiau, ac mai ychydig o'r cyfryw a lwyddodd i gyrraedd y rhestr.

Ym Mai 20—23, 1712 tynnwyd allan reolau gwneud saint o bersonau nodedig am eu duwioldeb, a dewiswyd Andrew a Chatherine uchod trwy bleidlais i fod yn seintiau. Yna rhoddir hanes y gwyrthiau a gyflawnwyd gan y seintiau newydd a disgrifiad o'r seremoni rhwysgfawr ynglŷn â'r seintio. Adgynhyrchir ynddo araith a roddwyd gan y Pab mewn cynhadledd yn canmol gallu offeiriad i gau ac agor pyrth y nef—" mae'r nefoedd ei hunan yn hongian ar wefus yr offeiriad a Duw yntau yn ategu dedfryd ei was, yr offeiriad . . . Y mae'r offeiriadaeth yn allu tywysogol mwy a godidocach nag eiddo'r wladwriaeth, tebyg i ragoriaeth ustusiaid yn gweinyddu barn ar blant yn eu dynwared, i ragoriaeth nefoedd ar y ddaear . . . Fel y mae swydd yr offeiriad yn odidocach nag eiddo'r brenin . . . Y mae brenhinoedd a breninesau i blygu glin i'r offeiriad gan edrych tua'r llawr . . ." Dyna rai o'r pethau a barablodd y Pab.

Yn hanner olaf y llyfr rhoddir nifer y Colegau ar y Cyfandir a gynhelid ag arian o Brydain, â'r taliadau a godid am wahanol gymwynasau, megis, dirwy o hanner gini am godi llôg ar arian benthyg, saith a chwech am ladd dyn, hanner gini am ladd tad, mam, gwraig, chwaer, neu berthynas, ond am ladd offeiriad rhaid oedd gwneud pererindod i Rufain a gweld y Pab, am hawl i gladdu hunanleiddiad, punt a saith a chwech, a thrwydded i fwyta cig yn y grawys, hanner gini, i wneud tref yn ddinas, pymtheg punt a thrigain i faddau pob ymddygiad afreolaidd, tair punt.

Yn dilyn rhoddir enghreifftiau o gynnwys llawysgrifau o ddyddiad 1351 a 1420 yn Lladin a Saesneg, ac yn eu dilyn a ganlyn—"Gellir yspeilio hereticiaid o'u heiddo yn gyfreithlon a gweinidogion protestannaidd o'u degymau ; nid yw gwragedd yn rhwym o gydfyw a hereticiaid. Gall mab wadu ei dad os heretic yw'r tad. Am hereticiaid yn hen ddeddf sydd gymwys. Bydded dy law arnynt i dywallt eu gwaed. Amddifadir heretic o bob hawl, boed naturiol, gwladol neu gymdeithasol. Cyn gynted ag a try brenin yn brotestant rhyddheir ei ddeiliaid o'u rhwymedigaeth iddo. Mae gan y Pab erioed yr hawl i ddiorseddu brenhinoedd ac ymerodron er mantais yr Eglwys, canys y Pab yw arglwydd ymerawdr." Fel hyn y bu. Ai doeth caniatau i'r hen drefn adgyfodi ?

"Siw a Miw."

(STORI I BLANT, DAMEG I RAI MWY).

Gan y Parchedig D. Jacob Davis, B.A.

Fe glywsoch lawer o bobl yn dweud—"Dim siw na miw !" A ydych wedi meddwl pam y maent yn dweud hynny ? Do debyg iawn, ond y drafferth oedd nad oedd neb i roi gwybod i chwi pam. A'r rheswm am hynny yw mai dim ond y fi a ŵyr, ac ni ddywedais wrth neb erioed o'r blaen. Y mae'n rhaid cadw hanes Siw a Miw yn ddistaw wrth reswm, ond gan eich bod chwi yn blant *da*—fe ddywedaf wrthych—cofiwch, dim siw na miw wrth neb arall !

Flynyddoedd mawr yn ôl, cyn ystalwm a dwy flynedd cyn slawer-dydd, pan oeddwn yn dechrau mynd yn hen am y tro cyntaf, yr oeddwn yn byw mewn bwthyn bach o'r enw Plas y Binc. Lle bach tawel yng nghanol y wlad yw Plas y Binc, ac nid oes dŷ arall i'w weld unman yn agos, dim ond caeau a choed a chymoedd. Yr oedd yn unig dros ben yno, ond os oedd yn unig y tu allan yr oedd yn unicach fyth arnaf fi, wrth fyw ar fy mhen fy hun yn y bwthyn bach. Ar hyd y dydd crwn yr oedd popeth mor ddistaw

â'r bedd, ac ar hyd y nos hir nid oedd na sŵn na symud. Codi o'r gwely, a'r cyfan yn ddistaw bach ; bwyta a'r cyfan yn dawel ; darllen a dim byd yn siffrwd yn unman. Ond rhyw fore o wanwyn pan oeddwn wedi dechrau bwyta yn ddistaw bach dyna'r peth rhyfeddaf erioed a ddigwyddodd i mi yn digwydd. Torrodd y distawrwydd yn yfflon—bron na allasech weld y darnau ar hyd y gegin. Yr oedd sŵn traed bach bach a thraed bach mwy yn rhedeg a champro o dan y bwrdd. "Wel, wel," meddwn i, " Be sy !" Ac ar hynny y gwelais lygoden fach wen yn edrych arnaf heibio i goes y bwrdd. Edrychodd yn syn arnaf, a minnau arni hithau am dro. Crafodd ei chlust gyda'i throed ac yna fe ddywedodd, "s-s-i-w" ! Plygais i edrych, ond wrth fy mod yn gwneud dyma gath fach ddu yn dod ymlaen i eistedd yn ymyl y llygoden wen. Edrychodd y gath fach ddu arnaf, rhwbiodd ei chlust gyda'i phawen, edrychodd wedyn ar y llygoden wen gan ddweud, "m-m-i-w," a dyna'r ddwy yn dechrau chwerthin dros y tŷ. Wedi chwerthin nes bod y dagrau yn rowlio o'u llygaid a dal eu hochrau gyda'u pawennau blaen, fe ddywedodd y llygoden "s-i-w" a'r gath "m-i-w" a daeth y cyfan i ben. Nid oeddynt wedi gweld dyn o'r blaen, mae'n debyg.

"Pwy bynnag, ydych, ac o ba le bynnag y daethoch," meddwn i, "y mae gennyf enwau parod arnoch, ' Siw a Miw '." Dyna sut y dechreuodd pethau ond nid dyna'r cwbl o bell ffordd.

Daeth Siw a Miw yn rhan o fywyd newydd Plas y Binc, ac ni fu'r fath le ar y ddaear erioed, gallwn feddwl. Gwelais ar unwaith fod Siw a Miw yn gyfeillion da. Byddent yn chwarae gyda'i gilydd bob amser a phryd bynnag y rhown soser o lefrith ar y llawr clywsech sŵn y traed bach bach ac yna y traed bach mwy yn rhedeg ati. Yna byddai'r ddwy yn yfed gyda'i gilydd a'r gynffon fach wen a'r gynffon fach ddu wedi eu plygu yn gylch o'r tu ôl iddynt. Byddent yn weddol ddistaw wrth yfed ond nid yn berffaith chwaith oherwydd fe âi llefrith ar whisgers Siw, gan wneud iddi disian ac wrth gwrs byddai Miw yn canu ei chrwth. Ond pan na fyddent wrth eu bwyd,—wel !—dyna beth oedd twrw. Pan awn i'r gwely yn y nos byddai'r ddwy yn rhedeg dros yr ystafell wely ; Siw tu ôl i'r papur wal, a Miw tu allan hyd onid oedd y papur yn ddarnau mân main dros y lle i gyd. Wedi blino ar hynny doent at y gwely gan redeg drosto ac oddi tano. Yn wir fe geisiodd Siw helaethu twll fy nghlust un noswaith er mwyn cael lle i guddio, ond dim ond ceisio a wnaeth hi ! Weithiau yng nghanol y nos efallai, byddai Siw yn esgus bod yn gath a Miw yn esgus bod yn llygoden. Wrth wneud hyn yr oedd yn rhaid i Miw dorri'r tyllau llygod yn rhai mawr a gwneud twrw naw gwaith gwaeth na'r un twrw a fu'n tarfu tŷ erioed. Ar yr un pryd ceisiai wneud sŵn llygoden yn ei llais bâs, a Siw hithau ar ei gorau yn ceisio miwian. Ond nid oedd llawer o siâp ar siw Miw na miw Siw, a daeth terfyn ar hyn fodd bynnag, oherwydd cafodd Siw wddf tost am ddiwrnodau wedi ceisio canu ei

chrwth fel Miw. Bu'n rhaid iddi garglo llefrith poeth am wythnos bob nos a bore ar ôl hyn. Ond gwaetha'r modd yr oedd y dydd fel y nos iddynt eich dwy, a phan fyddwn yn ceisio darllen byddai Siw yn dringo'r llestri seld a Miw ar ei hôl. Dro arall dringodd bindil y cloc mawr a methodd yn lân a mentro neidio i ffwrdd. Dyna lle'r oedd yr hen findil yn mynd yn ôl ac ymlaen, ac ni chlywn y dic-doc distaw bellach—dim ond sgrech wichlyd, siw-siw, siw-siw ! Dilynai Miw ei symud o un ochr i'r llall a'i phen yn mynd yn ôl ac ymlaen gyda'r bindil. Bu'r sŵn a'r mwstwr yn waeth y prynhawn hwnnw nag erioed, oherwydd fe gafodd y ddwy y bendro wyllt.

Fel yna y bu pethau am amser maith a Siw a Miw yn darganfod rhyw fath newydd o sŵn i darfu'r lle bob dydd a nos. Ond o'r diwedd fe ddaeth y diwedd, a diwedd trist iawn a fu hefyd. Yr oeddwn wedi rhoi'r soser a'r llefrith iddynt un prynhawn fel arfer, ac fe aeth y ddwy ati i yfed gan blygu'r gynffon fach ddu a'r gynffon fach wen yn gylch o'r tu ôl iddynt. Ond yn anffodus fe blygodd y ddwy eu cynffonau yr un pryd a rywsut neu gilydd fe aeth dau gylch eu cynffonau yn gwlwm. Ni sylwodd yr un o'r ddwy (na finnau chwaith) ar hyn yn digwydd oherwydd wrth droi a throi eu cynffonau mewn boddhad fe aeth y cwlwm yn gwlwm llymglwm.

Gorffennodd y llefrith yn y man, ac fe aeth y ddwy i redeg i ffwrdd i chwarae, ond gwae fi, o hynny ymlaen aeth popeth yn strim-stram-strellach. Ceisiodd Siw redeg i'r dde a Miw i'r chwith, ond ni allai'r un o'r ddwy symud gan fod y cynffonau yn clymu yn dynnach dynnach wrth dynnu. Ni welais y fath dynnu yn fy myw, a Siw yn dal yn dynn wrth y llawr gyda'i dannedd a Miw yn tynnu nerth pedair coes. Yn rhyfedd iawn mae llygod a chathod yn anghofio bod yn gathod a llygod bach da, ac yn anghofio bod yn ffrindiau hyd yn oed pan fo rhywun yn tynnu wrth eu cynffonau. Dechreuodd Siw ddweud pethau cas iawn am Miw a ffromodd honno yn fawr iawn, a chyn fy mod wedi cael amser i weld beth oedd yn bod, yr oedd Miw wedi llyncu Siw yn gyfangwbl ! Ond fe wnaeth fistêc garw wrth wneud hyn, oherwydd anghofiodd fod Siw ynghlwm wrth ei chynffon, a lle'r oedd Siw yn gorffen yr oedd hi yn dechrau. Felly fe welwch, pan oedd Miw yn gorffen llyncu Siw yr oedd yn dechrau llyncu hi ei hunan, a dyna beth fu raid iddi wneud druan !

Y mae yn dawel iawn ym Mhlas y Binc heddiw eto. Ar hyd y dydd crwn mae popeth mor ddistaw â'r bedd, ac ar hyd y nos nid oes na sŵn na symud. Codi o'r gwely a'r cyfan yn ddistaw bach ; bwyta a'r cyfan yn dawel dawel ; darllen a dim byd yn siffrwd yn unman . . .

Yn wir, nid oes na SIW na MIW !

John Penry, y Cymro Gwladgarol.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Heb fod ymhell o bentref Llangamarch, swydd Frycheiniog, pentref adnabyddus ar gyfrif ei ffynhonnau iechydol, y mae ffermdy o'r enw Cefnbrith. Yno y ganed John Penry yn 1559. Mab ydoedd i rieni o amgylchiadau bydol cymharol gysurus. Rhaid yw eu bod felly, oblegid, yn 1578, pan oedd yn 19 oed, danfonwyd ef i Brifysgol Caergrawnt. Pabydd ydoedd o ddaliadau crefyddol bryd hyn. Ynghwrs ei dymor yn y Brif Ysgol, daeth i gyffyrddiad â nifer o Brotestaniaid, a chafodd ei argyhoeddi o ragoriaeth Protestaniaeth ar Babyddiaeth. Yn 1586, symudodd o Gaergrawnt i Rydychen ; yno enillodd gryn enwogrwydd fel pregethwr o radd uchel.

Bu ei droedigaeth at Brotestaniaeth yn foddion i droi ei feddwl at Gymru. Gwelai gyflwr isel ei genedl, a dyheai allu ohono wneuthur rhywbeth tuag at ei chodi i gyflwr gwell. A ganlyn yw ei ddarluniad o'i chyflwr : "Ni ŵyr y miloedd o'n pobl ddim am Grist, fel Duw na dyn, offeiriad na phregethwr ; ac y maent braidd heb glywed amdano." A ganlyn yw darluniad Dr. Richard Davies, Esgob Ty Ddewi, o gyflwr Cymru yr un adeg : "Y fath yw trachwant y byd heddiw am dir, ac aur, ac arian, a chyfoeth, fel na cheir ond ychydig a ymddiriedant yn Nuw a'i addewidion. Trwy drais a lladrad, tyngu, twyll, anwiredd, a thrahawsedd, y mae dynion, fel â bachau, yn cael eu tynnu at ei gilydd. Ni fydd i Dduw eto foddi y byd â diluw ; ond y mae chwant am bethau y byd hwn wedi boddi Cymru heddiw, ac wedi gyrru ymaith bopeth da a rhinweddol." Hawdd y gellid ychwanegu tystiolaethau eraill am gyflwr moesol isel Cymru bryd hynny ac ymhell wedi hynny. O feddwl o Benri am gyflwr isel ei wlad, deffrowyd ei deimlad gwladgarol, a phenderfynodd gysegru ei fywyd a'i ymgais i'w chodi.

Yn 1587, ysgrifennodd draethodyn ar angen ysbrydol Cymru, a chyflwynodd ef i sylw'r Frenhines a'r Senedd. Amcan y traethodyn oedd cymell yr awdurdodau i ddarpar rhyw gynllun tuag at efengyleiddio Cymru. Apêl resymol, fe ellid tybied, oedd yr apêl ; a gallai'r awdurdodau o leiaf ddatgan cydymdeimlad â'r cais, os na wnaent ragor. Hollol groes i hyn y bu ; atafaelwyd y llyfryn, a thaflwyd Penry i garchar. Yno y bu am tua thri mis. Gwysiwyd ef i ymddangos ger bron yr awdurdodau, a chondemniwyd ef. Ystyrient y syniad o efengyleiddio Cymru yn ynfydrwydd ; gan (meddent) y cyflawnid y ddyletswydd hon i fodlonrwydd gan yr offeiriad. Ni ddigalonwyd Penry gan ei gondemniad. "Yr wyf yn diolch i Dduw," meddai, "na ddeallais i erioed bod y fath syniad yn heresi ; a byddai yn well gennyf golli fy mywyd na gwadu

y gwirionedd." Heresi, ym marn ei gyhuddwyr, oedd y syniad o efengyleiddio Cymru. A phan alwasant arno i dynnu ei eiriau yn ôl, atebodd—"na wnaf, trwy gymorth Duw, tra byddwyf byw." Danfonwyd ef yn ôl i'r carchar. Ar ôl bod yno beth amser, fe'i rhyddhawyd.

Cyhoeddodd ddau draethodyn arall—un yn 1588, y llall yn 1591—ar yr un mater. Bu'r ddau yn achos i gyndeiriogi ei elynion yn fwy nag erioed; a phenderfynasant ei erlid nes peri oddi dewi. Aeth i'r Alban am dymor, a chafodd yno groeso gwresog. Dychwelodd i Lundain yn 1592. Y Mawrth y flwyddyn dilynol, taflwyd ef i garchar, a dygpwyd ef i braw. Y diwedd fu—iddo gael ei osod i farwolaeth ym Mai o'r un flwyddyn (1593), mewn modd dirgelaidd a distaw, yn y flwyddyn 34 o'i oedran—yn agos yr un oed a'i Ben-Athro.

Pe Pabyddiaeth a fuasai crefydd wladol Prydain adeg marw Penry, nid achosai'r driniaeth a weiniwyd iddo gan yr awdurdodau un syndod. Pabyddiaeth oedd y grefydd wladol adeg teyrnasiad Mari Waedlyd. Ynghwrs ei theyrnasiad hi, gosodwyd i farw ugeiniau os nad cannoedd o Brotestaniaid—eu llosgi wrth ystanc nifer luosog o honynt, megis, Hooper, Ridley, Latimer, Cranmer, Ferrar (Esgob Ty Ddewi). Nid peth i neb a ŵyr hanes Pabyddiaeth i synnu o'i blegid yw hyn. Eglwys a ysid gan ysbryd erlid a fu'r Eglwys Babaidd trwy holl gwrs ei hanes. Dyna beth ydyw heddiw, o bydd y gallu yn ei llaw. Eithr nid Pabyddiaeth oedd y grefydd wladol yn amser Penry; Protestaniaeth yn hytrach; a'r teyrn a eisteddai ar yr orsedd oedd Elisabeth. Onid peth i ryfeddu o'i blegid yw hyn—teyrn a llywodraeth Brotestanaidd yn gosod Protestaniad i farw oblegid eiriol ohono am ganiatad i efengyleiddio'i wlad? Ond naturiol yw'r casgliad mai creadur erlidgar wrth natur yw dyn, o bydd y gallu yn ei law? Onid naturiol yw'r casgliad pellach nad oedd fawr (os dim) gwahaniaeth rhwng Pabyddiaeth Mari a Phrotestaniaeth Elisabeth. Cadw'r bobl mewn anwybodaeth oedd amcan pennaf y ddwy.

Gwelwyd eisoes beth oedd cyflwr Cymru yr adeg y soniwyd amdani. Ni buasai wedi'i chodi o'r cyflwr hwn oni bai i ddynion fel Penry godi'u llais mewn gwrthdystiad yn erbyn difaterwch yr awdurdodau—gwrthdystio hyd farw, rai ohonynt. Penry oedd ragflaenydd o nifer luosog a fu'n llafurio a hunan-aberthu i godi eu cenedl o'i chyflwr isel. Ardderchog lu ydynt! Ac ni haedda neb ohonynt ei goffau yn fwy na Penry.

Ffrwyth eu llafur hunan-aberthol hwy a fwynhawn ni. Ein perygl yw anghofio ohonom ein dyled iddynt. Ac o anghofio, ollwng gafael ar yr etifeddiaeth annhraethol werthfawr a bwrcaswyd am bris mor fawr.

Eleanor Rathbone.

GELLIR dweud am Miss Eleanor Rathbone (a fu farw ym mis Ionor) iddi dreulio'i hoes mewn ymdrech i wella byd dynion eraill. Yn rheoli ei bywyd yr oedd dau amcan mawr—gwella sefyllfa benywaid a gweithredu lles plant. Cyfunir y ddau amcan yn ei champwaith mawr, y cynllun o Lwfans Teuluol y bydd ei henw ynglwm wrtho am byth. Cyhoeddwyd yn 1924 ei llyfr *The Disinherited Family*. Yr haf diwethaf gwelodd gorffoli cenhadaeth y llyfr mewn Deddf Seneddol. Oddiar 1929 bu'n cynrychioli'r Prifysgolion Unedig yn y Senedd.

Ymhlith gwragedd ei dydd yr oedd Eleanor Rathbone yn un o'r mwyaf. Gŵyr pobun am ei hymdrech arwrol a llwyddiannus dros iawnderau benywaid ymhob man, yn enwedig ei gorchest goronog o sicrhau y Lwfans Teuluol. Yn nodweddiadol ohoni, y foment yr enillodd yr ymdrech, yn lle pwyso ar ei chlod, ymdaflodd ei hun gyda'i hegni arferol i'r ymdrech i achub Ewrop rhag newyn trwy weithredu yn awr ; y dydd y bu farw bu mewn cyfarfod ynglŷn â'r achos hwn.

Nid mor wybyddus hwyrach yw'r ffaith fod Undodiaeth yn un o'r dylanwadau pennaf a fu'n moldio ei datblygiad. Yn eu plith y saif allan un Undodwr. Priododd John Hamilton Thomas (1808—1894), gweinidog, yn gyntaf yn yr Ancient Chapel of Toxteth, ac wedi hynny am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain yn Renshaw Street Chapel (yn awr Ullet Road), Hannah, merch yr enwog William Rathbone. Yn absenoldeb Blanco White oherwydd afiechyd gweinyddwyd y seremoni gan Martineau, gweinidog Hope Street y pryd hynny, ac am ugain mlynedd ffrind Thom a'i gydweithiwr yn Lerpwl. Brawd Hannah, William Rathbone y chwechfed, oedd tad Eleanor. Yr oedd yn edmygu Thom yn fawr, ac arferai'n rheolaidd ar ddydd Sul ddarllen i'r plant bregethau eu hewythr ; daethant mor gyfarwydd â hwy nes y gallent eu hadrodd ar eu cof bron. Gadawodd y darlleniadau hyn argraff ddofn ar y gwrandawyr, a blynyddoedd yn ddiweddarach teimlai Eleanor Rathbone nad oedd cylchrediad gweithiau Thom mor eang ag y dylai fod, a phrynodd stoc gyfan y cyhoeddwyr o'r *Laws of Life after the Mind of Christ*. Daliodd hyd y diwedd i danysgrifio tuag at yr Ancient Chapel, lle y dechreuodd Thom ar ei weinidogaeth. Yn ei meddiant hi yr oedd ei hen gartref, "Oakfield," a dyna i chartref hithau pan fyddai yn Lerpwl.

L.A.G.

Cyrddau'r Pasg.

CYNHALIWYD y rhain nos Fawrth a dydd Mercher, Ebrill 16 a 17, yng Nghalltyplaca. Barn barod pawb amdanynt oedd inni gael cyrddau hyfryd a gwresog. Pregethwyd nos Fawrth gan y Parchedigion J. Marles Thomas, M.A. ac E. O. Jenkins; prynhawn Mercher gan y Parchedigion D. Jacob Davies, B.A., a'r Prifathro J. Islan Jones, M.A.; yn yr hwyr gan y Parchedigion J. D. Jones, B.A., B.D., ac E. R. Dennis. Cynorthwywyd gan y Parchedigion Aubrey J. Martin, B.A., Lewis Williams, a T. Oswald Williams, M.A. gyda'r rhannau arweiniol.

Y mae cynulleidfa Galltyplaca yn ddiolchgar i aelodau'r cynulleidfaoedd eraill ac i ffrindiau yn y gymdogaeth am sicrhau cynulliadau mor dda.

COFNODION Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd yng Nghalltyplaca, Ebrill 17.

Mynegwyd mai Mr. David John Bowen, Trebanos, yw'r Islywydd am eleni.

MYFYRWYR I'R WEINIDOGAETH.—Penderfynwyd ein bod yn gofyn i weinidogion ein heglwysi wneud archwiliad o'i cynulleidfaoedd am fechgyn sydd yn awyddus neu'n fodlon paratoi am y weinidogaeth. Disgwylir adroddiad o'r canlyniadau yn y Cyfarfod Blynyddol.

CYRDDAU BLYNYDDOL—Derbyniwyd yn ddiolchgar wahoddiad gweinidog a chynulleidfa'r Llwyn i'r Cyrddau Blynyddol.

S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

LLUNDAIN.

CYFERFYDD yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn yr Eglwys Undodaidd, Highgate Hill, ger Archway Tube Station, ar y Sul cyntaf a'r trydydd yn y mis am chwech o'r gloch. Aeth dau fis heibio er symud ein cynulleidfa i Eglwys Highgate a chynnal gwasanaeth ddwy waith y mis am chwech yn yr hwyr. Hyd yn hyn mae'r drefn newydd yn llwyddo, a nifer dda yn dod i bob oedfa. Bu'r canu hefyd, o dan arweiniad Mr. J. O. Lewis yn yr ysgol gân yn hwylus iawn, a medrwn edrych ymlaen at ganu gwell yn y gwasanaethau yn fuan.

Yr ydym yn ddyledus i'r Parch. T. L. Jones am ddyfod i bregethu i ni mor aml ac hefyd am ymweled â nifer o'n haelodau yn eu cartrefi. Pan eilw arnoch rhoddwch iddo groeso wir Gymraeg. Bydd yn rhaid i ni drefnu a'r L.D.P.A. ac ag eglwys Leytonstone i gael gwasanaeth Mr. Jones unwaith y mis yn gyson yn y dyfodol.

Diolch hefyd i'r ddwy Miss Jones am chwareu'r organ ac i'r gwragedd am ddod a danteithion er cael tê ac ymgom ar ôl pob gwasanaeth. Pleser mawr ydyw gweled yn ein hoedfaon amryw o'n bechgyn ieuainc sydd wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog. Dymunwn bob hwyl i'r morwr Tom Davies sydd yn awr ar ei ffordd i Gibralter.

TREFN Y DYFODOL (Y gwasanaethau am 6 p.m.).

Gorffennaf 8—Y Parch. E. R. Dennis; Gorffennaf 22—Y Parch. T. L. Jones.

Gohebiaeth.

RHIFYNNAU COLL.

Mr. GOLYGYDD,—

Y mae yn Llyfrgell Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin restr gyflawn o'r YMOFYNNYDD wedi eu rhwymo, hyd ddiwedd 1940. Yn anffodus y mae rhai rhifynnau wedi mynd ar goll yn ddiweddar. A all rhywun o dderbynwyr YR YMOFYNNYDD lanw'r bylchau drwy ddanfon i mi y rhifynnau am Mawrth, Awst a Medi, 1941; Rhagfyr, 1944, ac Ebrill, Awst, Medi, a Thachwedd, 1945. Fe delir y pris llawn am gopiau gweddol o lân. Bwriedir rhwymo rhifynnau'r blynyddoedd diwethaf yma gynted ag y gellir.

Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. J. ISLAN JONES.

Priodasau.

MAWRTH 23, yng Nghapel y Graig, Trebanos, LESLIE BAILEY, Treboeth, a MARGARET BALE, Heol y Llwynau, Trebanos, y Parchedig J. D. Jones yn gweinyddu.

MAWRTH 30, yng Nghapel y Graig, Trebanos, C.S.M. JOSEPH WILLIAM DENNIS LATHAM, 78, Sanderford Street, Lichfield (yn awr yn yr Almaen) a EUNICE BOWEN, merch Mr. David a'r diweddar Mrs. Bowen, 118, Swansea Road, Trebanos (yn awr Canteen Driver N.A.A.F.I. yn yr Almaen), y Parchedig J. D. Jones yn gweinyddu.

EBRILL 30, yng Nghapel y Graig, Trebanos, Art. THOMAS RAYMOND CLAPHAM, mab Mr. a Mrs. Clapham, Brookfield House, Ynysmeudwy (wedi dychwelyd o'r India) a GWYNNETH BOWEN, merch Mr. David a'r diweddar Mrs. Bowen, 118, Swansea Road, Trebanos, y Parchedig J. D. Jones yn gweinyddu.

EBRILL 23, yng Nghapel Cwmllynfell, THOMAS HAYDN PHILLIPS, mab Mr. a Mrs. E. Phillips, Caeismaen, Trebanos, a BETTY HARRIES, Cwmllynfell, y Parchedigion J. Robert Thomas a J. D. Jones yn gweinyddu.

Marwgof.

EBRILL 9, yng nghartref ei mab a'u merch-yng-nghyfraith, 12, Weston Road, Guildford, MARGARET GEINOR JAMES, gweddw y diweddar Peter James, Llanofer, yn 68 mlwydd oed. Hi oedd merch ieuengaf y diweddar William a Mary Jones, Gelliaur, Llandysul, ac yn ei marw hi dyna'r olaf o ferched Gelliaur wedi mynd. Bu'n yr ysgol gyda'r Parch. David Evans, yng Nghribyn, ac wedi pasio'r arholiadau gofynnol bu am rai blynyddoedd yn athrawes mewn ysgol yn Llanofer. Priododd yn 1909 â Peter James, bachgen rhagorol o saer ar ystad Llanofer: collodd ef ar ôl ychydig flynyddoedd o gyd-fyw hapus, a bu raid iddi hi a'i mab ymladd brwydr bywyd heb ei gwmni. Deallwn ei bod yn barchus iawn yn yr ardal ac fod iddi yno lu mawr o gyfeillion. Flynyddoedd lawer yn ôl gafaelodd dolur poenus iawn ynddi, ac er pob ymdrech i'w symud gwrthododd ollwng ei afael. Gadawodd i alaru fab a'i briod a'i blentyn, brawd (Dafydd) yn America, a nifer o neuaint. Y dydd Llun dilynol dygwyd ei llwch i fynwent Llwynrhydowen, a gosodwyd ef yn yr un bedd a'i dwy chwaer. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'i nai hi—y Parch. Dewi J. Jones, Llanddeusant.

Nodion yr Eglwysi.

CYMANFA GANU CEREDIGION.—Cynhelir Pwyllgor Cyffredinol y Gymanfa uchod yng Nghapel-y-Bryn, prynhawn SUL, GORFFENNAF 7fed, am 4 o'r gloch. Disgwylir dau gynrychiolydd o bob eglwys perthynol i'r Undeb.—TOM DAVIES (Cadeirydd).

Welsh Unitarians as Schoolmasters.—Diolchir yn gynnes i " Llais dros y clawdd " am ei " Lythyr Agored " diddorol yn rhifyn Ebrill o'r YMOFYNNYDD. Carwn roi ar ddeall iddo ef ac eraill y gellir cael copiau o lyfryn y Parchedig David Evans, Cwmiago, oddiwrthyf fi. Pris, 10c. yr un. Chwech a rhagor, 9c yr un, a'r cludiad yn rhad.—E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

TREBANOS.—Cynhaliwyd cyngerdd Dydd Gwyl Dewi fel arfer, ond y plant a hawliodd y rhan helaethaf o'r llwyfan eleni. Yn ychwanegol at y canu a'r adrodd chwareuwyd pedair drama fer. Yr oedd ôl llafur ar y rhaglen a baratowyd gan Miss Ray Bowen a Mrs. Richard Lewis. Treuliwyd noson wir hwylus.——— Ar Fawrth 13 mwynhawyd cyngerdd o ddrama dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol. Trefnwyd y rhaglen gan Gwmni'r Alltwen, a phythefnos yn ddiweddarach talwyd y pwyth yn ôl pan drefnodd Cymdeithas y Graig gyngherdd yn ysgoldy Capel yr Alltwen.

ABERYSTWYTH.—Bydd yn dda gan garedigion yr Achos Bach yma i ddeall fod y Parch. W. Priestley Phillips, M.A., Porthcawl, wedi derbyn galwad unfrydol yr eglwys i ddyfod i'w gweinidogaethu, ac y bwriada ddechrau ar ei waith yma ar y Sul cyntaf ym Mehefin. Fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr yn ddiamau, mab y diweddar Barch. W. J. Phillips, Nottais yw Mr. Phillips, ond er wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru gyda'r Saeson y mae wedi bod yn gweinidogaethu hyd yn hyn. Carem gymryd mantais o'r cyfleustera hwn i apelio at bob Undodwr ac Undodwraig a ddaw i Aberystwyth yn ystod yr haf i ddod i wrando arno i gapel bach Heol Newydd, ac ni chredwn y cânt ei siomi ynddo. Am nad yw ei iechyd cystal ag y gellid disgwyl, dim ond un gwasanaeth y Sul fydd gennym, a hwnnw am unarddeg y bore, oddieithr ar y Sul cyntaf ymhob mis pryd y bydd gwasanaeth am chwech yr hwyr hefyd.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Wener y Groglith cynhaliwyd gwyl dê flynyddol yr Ysgol Sul, a bu'r chwiorydd yn hynod ffyddlon a ffodus i sicrhau digonedd o bethau da i'r byrddau. Daeth nifer luosog ynghyd, a chafwyd amser pleserus iawn. Yn ystod yr hwyr cyflwynodd yr arolygydd, Miss Jones, Bwthyn, lyfrau gwobrwyon i'r plant. Yr oedd un wedi cadw'r ysgol yn ddifwlch am saith mlynedd, ac un arall am bedair blynedd. Cawsant bobo Feibl hardd. Cafodd y lleill gopiau o'r Testament Newydd.

Yn ystod yr hwyr hefyd pasiwyd pleidlais gynnes iawn o ddiolchgarwch i Miss Jones, Gellifaharen, a'i chwaer, Mrs. J. Lloyd-Davies, Abertawe, am ddarlun o'u mam i addurno mur yr Ysgoldy. Mae'n ddarlun ffyddlon iawn o'r foneddiges garedig a fu'n gefn i'r achos o ddyddiau Gwilym Marles hyd ei marw ychydig flynyddoedd yn ôl yn 90 mlwydd oed.

Y DIWEDDAR DAN DAVIES, L.T.S.C.

Fe hunodd coeth drefnydd cân,—a hynaws
Arweinydd ein cytgan ;
Ond cofia enwad cyfan,
O dan glwyf, ei donau glân.

LLAIS O'R GYMANFA.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.